**HYSBYSIAD**

**DEDDF DRAENIO TIR 1991**

**CYFOETH NATURIOL CYMRU**

**NEWID FFINIAU ARDALOEDD DRAENIO MEWNOL AFON CONWY, CORS ARDUDWY, GLASLYN A PHENSYFLOG, GWENT, HARLECH A MAENTWROG, LLANFROTHEN, MAWDDACH AC WNION, A POWYSLAND (CYMRU)**

**TRWY HYN HYSBYSIR** bod Corff Adnoddau Naturiol Cymru wedi cyflwyno cynllun, o dan Adran 3 (1) Deddf Draenio Tir 1991, i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer y materion canlynol:

(i) newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Afon Conwy i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Afon Conwy;

(i) newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Cors Ardudwy;

(iii) newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Glaslyn a Phensyflog i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Glaslyn a Phensyflog;

(iv) newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Gwent i wneud y canlynol:

(a) eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Gwent; a

(b) chynnwys y tir a ddangosir mewn glas llinellog ar Fap Gwent;

(v) newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Harlech a Maentwrog;

(vi) newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Llanfrothen;

(vii) newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion i eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Mawddach ac Wnion;

(viii) newid ffiniau Ardal Draenio Mewnol Powysland (Cymru) i wneud y canlynol:

(a) eithrio'r tir a ddangosir mewn gwyrdd llinellog ar Fap Powysland (Cymru); a

(b) chynnwys y tir a ddangosir mewn glas llinellog ar Fap Powysland (Cymru); a

(ix) materion sy'n ategol neu o ganlyniad i newid y ffiniau.

Mae copïau o'r cynllun a'r mapiau wedi cael eu hadneuo yn y swyddfeydd canlynol i'w harchwilio yn rhad ac am ddim:

| | Cyfeiriad | Oriau agor |
|---|---|---|
| **Swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru Llaneirwg** | Plas yr Afon<br>Parc Busnes Llaneirwg<br>Llaneirwg<br>Caerdydd CF3 0EY | Dydd Llun i ddydd Gwener: 9am – 5pm |
| **Swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru Bangor** | Maes y Ffynnon<br>Ffordd Penrhos<br>Penrhosgarnedd<br>Bangor<br>Gwynedd LL57 2DW | Dydd Llun i ddydd Gwener: 9am – 5pm |
| **Swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru y Trallwng** | Powells Place<br>Powells Lane<br>Y Trallwng<br>Powys SY21 7JY | Dydd Llun i ddydd Gwener: 9am – 5pm |
| **Llyfrgell Dolgellau** | Ffordd y Bala<br>Dolgellau<br>LL40 2YF | Dydd Llun: 10am – 6.30pm<br>Dydd Mawrth a dydd Gwener: 10am – 5pm<br>Dydd Mercher: 10am – 1pm<br>Dydd Iau: 2pm – 5pm<br>Dydd Sadwrn: 10am – 12.30pm |

Gellir gweld copi o'r cynllun a'r mapiau ar wefan Corff Adnoddau Naturiol Cymru ar https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/consultations/our-own-consultations-closed/internal-drainage-districts-boundary-review-consultation/?lang=cy.

Gellir cyflwyno unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cynllun i Dîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Llywodraeth Cymru, 3ydd Llawr, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, o fewn un mis i'r hysbysiad hwn gael ei gyhoeddi (erbyn 12 Mawrth 2018). Dylid hefyd anfon copi o unrhyw sylwadau o'r fath at Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP, wedi'i farcio at sylw Neil Evans.

Am ragor o wybodaeth am y cynllun, cysylltwch â Neil Evans, Uwch-gynorthwyydd Cyfreithiol, Corff Adnoddau Naturiol Cymru, ar 03000 654 270.

12 Chwefror 2018